# Ysgol Llannon School

## Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

## 2020-2021

## Governors' Annual Report

Dymunaf i, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch o galon i chi gyd am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth parod dros y flwyddyn diwethaf.

Er gwaetha popeth, rydym oll wedi cydweithio heddiw i sicrhau fod disgyblion ein hysgol yn mwynhau gymaint o brofiadau a chysondeb a phosibl.

Diolch o galon,

Marie Langabeer

## *YSGOL GYNRADD LLANNON*

### *ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR 2020-21*

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Corff Llywodraethol:* | Mr James Ellis<br>Ysgol Gynradd Llannon<br>Heol Nant<br>Llannon<br>Llanelli<br>SA14 6AE |
| *Clerc i'r Corff Llywodraethol:* | Mrs M Evans<br>Ysgol Gynradd Llannon<br>Heol Nant<br>Llannon<br>Llanelli<br>SA14 6AE |

Cofrestr cyflawn o'r Llywodraethwyr:

| | | |
|---|---|---|
| Mr J Ellis | Rhiant | 31.12.2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Cllr E Dole | AALl | 04.09.2024 |
| Mrs Ll Watkins | AALl | 20.03.2024 |
| Lle Gwag | Cymunedol | |
| Miss J M Langabeer | Pennaeth | - |
| Mrs S Murphy | Athrawes | 20.05.2022 |
| Mr E Wood | Rhiant | 10.02.2024 |
| Mrs K Phillips | Rhiant | 23.10.2023 |
| Mrs A M Thomas | Cymunedol | 16.02.2024 |
| Mr Sam Jones | Cymunedol | 20.03.2025 |

Ysgol Llannon School

Adroddiad Blynyddol 2020-2021
Corff Llywodraethol Rhif 69

**Staffio Haf 2021**

Rhif y disgyblion ar y gofrestr ar ddechrau'r tymor = 99

Nifer o ddosbarthiadau = 4

Blwyddyn 5 a 6 – Mrs W Williams = 28 o ddisgyblion

Blynyddoedd 3 a 4 – Miss A Voyle/Miss Elin Davies = 29 o ddisgyblion

Cyfnod Sylfaen – Mrs S Murphy a Mr Harri Edwards = 42 o ddisgyblion Meithrin/Derbyn - 9 disgybl, Dosbarth Derbyn - 10 o ddisgyblion, Blwyddyn 1=10, Blwyddyn 2=13 disgybl.

Athrawon Peripatetig sy'n ymweld â'r ysgol:

| | |
|---|---|
| Mr G Thomas – | Pres |
| | Recorders i Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 |
| Mr Phil Shingler - | Chwythbrennau |

Staff Cynorthwyol

Mrs A M Passmore, Miss H Randall (0.4) Miss S Roberts a Mrs S Wilkinson (0.6)

Swyddog Gweinyddol yr ysgol
Mrs M Evans

## Ysgol Llannon School

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Llannon.
Addysgir y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyflwynir Saesneg fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff ddisgyblion sy'n ymuno â'r Ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 eu cefnogi gan Athrawes o Dîm AGAD Sir Gar- Athrawon y Gymraeg a Dwy ieithrwydd.
Mae pob cyswllt â rhieni yn hollol ddwy ieithog. Hefyd, mae Ysgol Llannon wedi ymrwymo i Siarter Iaith, Sir Gâr ac wedi bod yn fuddugol i gael y wobr arian. Mae'r Cyngor Ysgol yn weithgar wrth osod targedau a threfnu gweithgareddau er mwyn "Joio byw yn Gymraeg" i fynd am y wobr aur.

### Hunan Arfarnu a Chynllun Datblygu'r Ysgol

Mae rhaglen arfarnu'r ysgol yn sicrhau bod holl bynciau ac agweddau'r cwricwlwm yn cael eu gwerthuso.
Mae'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn cael eu nodi ar Gynllun Datblygu'r Ysgol.
Mynycha'r staff Hyfforddiant mewn Swydd yn unol â gofynion Cynllun Datblygu'r Ysgol ac anghenion Datblygiad Proffesiynol.

## Adolygu Polisiau'r Ysgol

Lluniwyd nifer o bolisiau newydd sy'n cael eu rhannu gan y staff a'r Llywodraethwyr.
Hyd yn hyn, rydym wedi adolygu a derbyn polisi Diogelu, Ymddygiad yn cynnwys Covid 19, Gwrthfwlio, E Ddiogelwch, Chwythu'r Chwiban, Disgyblu Staff, Iechyd a Diogelwch a pholisi Ymyriad Positif.

## Safonau Addysgu a Dysgu

Caiff safonau addysgu a dysgu eu monitro'n gyson gan arweinwyr pwnc, y Pennaeth, Llywodraethwyr, Ymgynghorwyr y Sir ac arolygwyr Estyn. Rydym wedi ymrwymo i godi safonau Sgiliau Sylfaenol mewn Llythrennedd a Rhifedd. Mae grwpiau o ddisgyblion yn cael gweithgareddau "Hwb Ymlaen" a "Dyfal Donc." Hefyd mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cael sesiynau "Llythrennau a Synau" a disgyblion cyfnod allweddol dau sesiynau "Read, Write, Inc." Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn ym mis Chwefror 2019 beirnadwyd fod y safonau yn dda.

## Anghenion Dysgu Arbennig

Nôd yr ysgol yw adnabod anghenion dysgu ychwanegol ein disgyblion cyn gynted â phosibl ac i gymryd y camau priodol i ateb eu gofynion.

Cadwn mewn cysylltiad agos â'r rhieni a defnyddiwn yr adnoddau priodol i roi cymorth i'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Rydym yn cael cymorth gan Seicolegydd Addysgol y Sir, yr Adran Ymddygiad a Therapydd iaith a lleferydd.
Mae'r polisi wedi cael ei adnewyddu a map o ddarpariaeth disgyblion yn cael ei adnewyddu yn ôl yr angen.

## Disgyblion ag Anabledd

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â pholisi Cyfle Cyfartal yr ysgol.
Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r adeilad – toiledau anabledd, cawod, a.y.b. Mae hyn yn sicrhau mynediad llawn i'r adeilad ac i'r cwricwlwm.
Caiff plant ag anabledd corfforol eu derbyn a'u haddysgu yn ôl eu hanghenion fel y nodwyd gan yr asiantaethau eraill sy'n gofalu amdanynt er mwyn sicrhau parhad a chysondeb yn eu haddysgu.

## Ysgol Iach

Mae Ysgol Llannon yn dilyn cyfarwyddiadau Ysgolion Iach y Sir. Rydym fel ysgol yn pwysleisio gofalu am iechyd trwy annog byrbrydiau ffrwythau amser chwarae, dŵr yn unig yn y poteli a gwneud yn siwr bod cynnwys bocsys bwyd yn iach. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a Chyngor Ysgol Iach hefyd yn gyfrifol am werthu ffrwythau amser chwarae. Mae hyn yn helpu datblygu disgyblion rhifyddog. Eleni hefyd bu'r aelodau yn cynnig cyngor ar olchi dwylo, y plât bwyta'n iach, e ddiogelwch, meddwlgarwch ac empathi ayb. Cafodd nifer o ddisgyblion eu hyfforddi gan y Sir ar "Bod yn Bydis." Mae'r bydis yn sicrhau nad oes neb heb ffrind amser egwyl. Mae'r cyfrifoldeb hyn yn helpu datblygu sgiliau cyfathrebu'r Bydis. Cynhaliwyd gweithdai i bob dosbarth gan SBECTRWM ar agweddau fel cadw'n ddiogel, perthnasedd, cam drin yn y cartref ayb. Hefyd cafodd ddisgyblion flwyddyn 5 a 6 weithdy gan yr NSPCC. Mae llysgenhadwyr yr ysgol yn cyflwyno Hawliau Plant i holl ddisgyblion yr ysgol ac hefyd yn mynychu hyfforddiant gan Comisiynydd Plant Cymru. Bu'r ysgol yn fuddugol i gael gwobr am eu gwaith ar yr elfen Diogelwch.Rydym yn aparatoi ar gyfer yr elfen Dysgu, Iechyd a Lles yn nesaf.

## Cysylltiadau â'r Gymuned

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Dirprwywyd cyfrifoldebau am agweddau a phynciau i bob un o'r llywodraethwyr.

Derbyniwn fyfyrwyr ar brofiad gwaith o'r Ysgol Uwchradd Maes y Gwendraeth ac o Golegau Lleol gan gynnwys Rhydaman, Llanelli a Choleg y Drindod. Daw rhai hefyd o'r Prince's Trust.
Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r Mudiad Meithrin sy'n cwrdd yn foreol yn yr ysgol.
Mae'r ysgol yn arfer cynnal gweithgareddau yn yr Eglwys a'r Capel gan gynnwys y Gwasanaeth Diolchgarwch, Gwasanaeth Nadolig a'r Ffair Nadolig.
Dros y ddwy flynedd diweddaf oherwydd covid rydym wedi recordio perfformiadau a rhannu ar Twitter a Hwb pob disgybl.
Mae perthynas agos iawn gyda'r ysgol a'r WI lleol.
Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau agos gyda Heddlu Crosshands.
Mae P.C. Ali yn ymweld â'r Ysgol yn dymhorol i gynnal sesiynau – e.e. bwlian, cyffuriau, ymddygiad, llefydd diogel i chwarae a.y.b.

Gan amlaf, croesawn aelodau'r gymuned i ymuno gyda ni mewn nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn –

- Ymweliadau gan y Ficer a'r Gwenidog lleol
- Ffair Nadolig
- Cyngerdd Nadolig
- Mabolgampau a Ffair Haf yr ysgol
- Disgos Tymhorol
- Casglu sbwriel yn y pentref yn ystod wythnos Cadw Cymru'n Daclus
- Cael help y gymuned ar ein Diwrnod Eco – aelodau'r Gymuned yn ymuno gyda ni i beintio, tacluso, plannu a.y.b.
- Sgiliau

Casglodd yr ysgol ar gyfer elusennau gan gynnwys Plant mewn Angen, noddi plentyn yn Luhimba. Maint Cymru, Heart start Wales ynghyd â Roald Dahl. Rydym hefyd wedi cyflwyno nifer o eitemau celf i Eisteddfod y Tymbl

Annogwn ein disgyblion i ymuno â Llyfrgelloedd Lleol a chymryd rhan yn eu prosiect i annog darllen dros yr haf sef y Sialens Ddarllen.

Diolch i bawb am bob cefnogaeth dros y flwyddyn!

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Ymfalchiwn yn y berthynas agos sydd gan yr ysgol â'n rhieni. Mae'n polisi drws agored yn sicrhau fod rhieni yn cael eu croesawi i drafod unrhyw beth.

Mae'r Cymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi bod yn weithgar iawn eleni er gwaetha'r amgylchiadau covid. Maent wedi codi arian i dalu am :

- Llyfrau Lles
- Ynghyd â thalu am y ffotocopiwr.

Maent hefyd yn gwerthu gwisg ysgol ail alw. Ewch I wefan Facebook: Ysgol Llannon School PTA i weld beth sydd ar gael!

Diolchwn i'r swyddogion am eu gwaith a'u hymroddiad dros y flwyddyn.

## Presenoldebau

Presenoldebau am y flwyddyn o Fawrth 1af 2021 I 16ain o Fehefin
– 96.10%

Targed Presenoldeb 2019- 2020 yw 97%

| Dosbarth | Presenoldeb % | Absenoldeb a chaniatad% | Absenoldeb heb ganiatad % |
|---|---|---|---|
| N2 a Derbyn/ Blwyddyn 1 | 96.06 | 3.89 | 0.06 |
| Blwyddyn 2 | 97.48 | 2.25 | 0.00 |
| Blwyddyn 3 a 4 | 96.69 | 3.25 | 0.06 |
| Blwyddyn 5 a 6 | 94.87 | 5.03 | 0.09 |

## Penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod blynyddol diwethaf

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

## Llawlyfr yr Ysgol

Mae llawlyfr yr ysgol wedi'i adolygu ac ar gael o swyddfa'r Ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Y newidiadau a wnaed: strwythur dosbarthiadau, staffio a llywodraethwyr.

## Trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn trosglwyddo i ysgol Maes y Gwendraeth. Bydd un disgybl yn mynychu Ysgol Bro Dinefwr, un i St John Lloyd ac un i Bryngwyn.

## Targedau'r Ysgol a Chynnydd

| Disgrifiad/gweithgaredd/gwelliant | **Cynnydd** (dylai hwn gyfeirio at gynnydd o'i gymharu â 'chynlluniau tymor presennol' o adroddiad blaenorol y Pennaeth, ac unrhyw gynnydd ychwanegol mewn meysydd na gynlluniwyd/adroddwyd arnynt yn flaenorol): |
|---|---|
| I sicrhau profiadau rhifedd cyffrous, diddorol a hygyrch i ddisgyblion i ddatblygu eu sgiliau rhesymu i ddatrys problemau, mewn sefyllfaoedd bob dydd, yn annibynnol ac ar y cyd. | Cyfarfodydd staff i sicrhau fod staff gan gynnwys staff newydd yn cynllunio gweithgareddu rhifedd ar draws y cwricwlwm<br><br>Cyflwyno tasgiau rhifedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion yn rheolaidd yn ol y cynllunio<br><br>Gweithgareddau rhifedd yn cael eu cynllunio i ddisgyblion ar lein dros y cyfnod clo.<br><br>Bu disgyblion yn cwbwlhau gweithgareddau Sumdog a chymryd rhan mewn nifer o gystadleutahu.<br><br>Tasgiau rhifedd yn cynnwys y RSPB birdwatch, mesur tymheredd, casglu data ar hoff gerddoriaeth disgyblion ar ddydd Miwsig Cymru, casglu data ar bengwiniaid, mesur a phwyso cynhwysion i goginio ayb<br><br>Hyfforddiant podiau rhifedd i staff. |
| I ddatblygu sgiliau lles, gwydnwch a chymhelliant yr holl ddisgyblion drwy sicrhau profisadau cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys rhai yr ardal allanol | Staff wedi mynychu hyfforddiant LLythrennedd Emosiynol gan Carly Jones ar Ionawr 4ydd.<br>Asesu lles emosiynol disgyblion<br><br>Cynorthwywr i fynychu hyfforddiant Positive Play.<br><br>Awyrgylch agored fel bod staff yn trafod yn agored eu teimladau, barn ayb<br><br>Staff yn cysylltu a disgyblion yn rheoliadd dros y cyfnod clo<br><br>Cymryd rhan yng nghweithgareddau Wythnos Iechyd Meddwl Disgyblion – Mynegwch eich hun gan ddilyn gweithgareddau Place2be.<br><br>Bu disgyblion yn creu lantern i sialens Sir Gar i ledaenu'r neges o – gobaith, golau ac hapusrwydd i bawb yn ein cymuned. |

| | |
|---|---|
| | Rhannwyd gweithgareddau Lles yn wythnosol gyda disgyblion<br>Bu disgyblion yn cymryd rhan yn 1 miliwn o funudau actif gudag Actif sir gar.<br>Bu disgyblion yn gwneud gweithgareddau i ddathlu dydd Empathi.<br>Rhannwyd gweithgareddau gyda theuluoedd ar Twitter i gwbwlhau dros hanner tymor ar empathi.<br><br>Cafodd pob swigen ymweliad gan Sbectrwm ar berthnasoedd positif<br>Cynorthwywraig i fynychu hyfforddiant ELSA.<br><br>Staff i gyflwyno gweithgareddau lles – Bod yn garedig, ffrind da ayb<br><br>Pawb yn cael ffrwyth gyda'i gilydd amser egwyl. Yr Ysgol yn prynu ffrwyth i ddisgyblion sydd heb ffrwyth er mwyn eu hannog i ddod a ffrwyth eu hunain.<br><br>Stori ar y cyd yn y Cyfnod Sylfaen bob prynhawn gydag ysgytlaeth neu sioceld poeth.<br><br>Hyfforddiant PROACT SKIP i staff<br><br>Gweithgraeddau gan PC Ali- Smart ar y we, syber bwlio ayb<br><br>Gweithgareddau gan Sbectrwm ar iechyd a lles<br>Dau lysgenhadwr efydd yn roi gwersi ymarfer corff dyddiol.<br>Mr Lyn Broderick Actif Sir Gar wedi monitor eu gwersi.<br>Cyflwyno beiciau cyd bwyso i'r cyfnod Sylfaen.<br>Disgyblion yn cael cyfloedd o fewn y themau I ddefnyddio'r ardal allanol- i blannu, cynhaeafu ayb<br><br>Mae staff wedi bod yn edrych ar gynllunio'r Maes Addysgu Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.<br><br>Mae staff wedi dechrau cynllunio er mwyn sicrhau dilyniant |

| | |
|---|---|
| | Rhannwyd holiadur gan rieni i gasglu eu barn. |
| **I ddatblygu sgiliau cyfathrebu pob disgybl ar lafar, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, fel eu bod yn gallu mynegi eu barn gydag hyder cynyddol gan ddatblygu eu gwerthoedd a’u hunaniaeth.** | Cynllunio yn nodi’r cyfleoedd am dasgiau llafar ar draws y cwricwlwm.<br>Cynllunio yn nodi’r cyfleoedd am dasgiau ysgrifennu mewn genres gwahanol.<br>Ymghynghorwyr ac athrawon y sir wedi ymweld a chynnig cymorth- CS – Rose Jones, Donna Williams, AGGAD, arweinydd dysgu Erw ayb i fodelu gwersi ayb.<br>Cyflwyno patrymau llafar cywir i ddisgyblion- mae pel gyda fi, nhw i gyd, rydw i, dydw i ddim.<br><br>Tasgiau llafar – mynegi barn ayb a recordio eu gwaith. Cyflwyniadau gan ddisgyblion ar bynciau gwahanol.<br><br>Gwobrwyo disgyblion am siarad Cymraeg – Cymro/ Cymraes Cwl yr wythnos o bob dosbarth yn cael eu gwobrwyo a chymeradwyo yn wythnosol.<br>Gweithgareddau ar Ddydd Miwsig Cymru<br>Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau Geirio Gwych – ysgrifennu estynedig ar y gwahanol genres<br><br>Cynnal gweithgareddau Cymreig ar Ddydd Gwyl Dewi – yn cynnwys celf a thasgiau ysgrifenedig.<br><br>Sicrhau fod sesiynau ffrydio byw yn datblygu patrymau iaith cywir wrth gynnal trafodaethau.<br><br>Tasgiau gwahaniaethol ar lein i ddisgyblion i ddatblygu eu sgilaiu iaith.<br>Hyffroddiant Cynllun Clonc, |

| **Targedau** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau mewn perthynas a’u dysgu | Cafwyd sesiwn hyfforddi gan Mrs Murpy ar sut mae’r cyfnod sylfaen yn casglu barn a dewisiadau dysgu disgyblion.<br>Mae pob disgybl yn cael cyfle i fynegi eu barn am yr hyn hoffent ei ddysgu ar ddechrau thema neu uned newydd. |

| | |
|---|---|
| | Disgyblion yn cael cyfle i werthuso ar ddiwedd thema gan nodi beth weithiodd yn dda.<br>Rhoddir gyfle i ddisgyblion mynegbarn mewn dull anffurfiol gan y pennaeth yn dymhororl |
| Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion | Staff wedi cytuno ar lawysgrifen glwm a fydd yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion. Llyfrau ymarfer llaw ysgrifen wedi ei roi i ddisgyblion.<br>Disgyblion yn cael amser i ymarfer.<br>Rhannu y targed gyd a disgyblion fel eu bod yn ymwybodol fod angen cyflwyno'r gwaith taclusaf posib.<br>Staff i fodelu gwaith taclus i ddisgyblion.<br>Mae monitro llyfrau Cyfnod Allweddol 2 yn dangos ychydig wellaint. |

## Adeilad

Mae gwelliannau yn cael eu gwneud gan y gofalwr yn ystod y gwyliau Haf a'r Cyfnod Clo. Bu'n peintio'r toiledau.

## Toiledau

Mae yma ddau floc o doiledau- un yn y Dosbarth Derbyn ac un i Ferched ac un i Fechgyn yn y brif goridor. Mae yna un toiled i staff a dau doiled anabl, un ar bob pen yr ysgol. Mae dau toilet yn y cabanau, un i ferched ac un i fechgyn. Maent yn cael eu glanhau ar ddiwedd y dydd

## Gweithgareddau'r ysgol

### Chwaraeon

- Cafodd dau lysgenhadwr eu hethol a'u hyfforddi gan Actif Sir Gar
- Cawsant gyfarfod gyda Lyn Broderick actif Sir Gar ar Teams i drefnu gweithgareddau a rhannu syniadau
- Maent yn cynnal sesiynau sgiliau i ddisgyblion eraill yr ysgol
- Daeth Mr Lyn Broderick i'r ysgol i asesu gwers gan y llysgenhadwyr ynghyd a gwers beicio

- Bu pob disgybl wedi cymryd rhan ym mabolgampau'r ysgol ar y thema Y Gemau Olympaidd a Siapan
- Mae disgyblion a staff yn cymryd rhan ym mil o funuadau y dydd gan Actif Sir Gar er mwyn gwella ffitrwydd a lles
- Mae disgyblion y cyfnod Sylfaen yn cael sesiynau ioga a meddwlgarwch yn wythnosol
- Bu disgyblion yn gwneud milltir y dydd
- Bu disgyblion yn gwisgo coch, gwyrdd, gwyn neu felyn i gefnogi Cymru yn yr Euros. Codwyd £1. Casglwyd £ 80- i Maint Cymru.
- Bu llysgenhadwyr yn cyflwyno sgiliau pel droed I ddisgyblion eraill yr ysgol.
- Cynhaliwyd Mabolgamapu lle bu pob disgybl yn cymryd rhan yn ei swigen ar y thema Siapan a 'r Gemau Olympaidd
- Codwyd £130 er cof am Mrs Lona Thoams i roi i Adran y Fron, Ysbyty Y Tywysog Philip, Llanelli.

<u>Cysylltiadau Cymunedol</u>

- Cafodd disgyblion eu ffilmio yn cyflwyno eitemau i wasanaeth Diolchgarwch. Rhannwyd yr eitemau ar gyfri Twitter yr ysgol
- Cynhaliwyd a ffilmiwyd cyflwyniadau Nadolig a rhannwyd ar Twitter ac ar gyfri Hwb disgyblion i rieni medru eu gweld.
- Cynhaliwyd Nosweithiau Rhieni rhithiol ar Team
- Cafodd cyfnod allweddol 2 gyfle i weld cyngerdd gan Symffoni Cymru
- Dathlwydd Diwrnod y Llyfr drwy gyflwyno gweithgareddau ar lyfrau.
- Recordiwyd Gwasanaeth Blwyddyn 6 2020 a'i rhannu gyda rhieni ar Hwb
- Cafodd ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gweithdy ar fynegi teimladau ac emosiwn mewn cyfryngau gwahanol
- Bu disgyblion yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Celf Eisteddfod y Tymbl

<u>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon</u>

- Cynhaliwyd Raffl Nadolig a Raffl Gwanwyn
- Maent yn gwerthu gwisg ysgol ail law. Gweler tudalen Facebook- Ysgol Llannon School PTA

<u>Cyngor Ysgol</u>

- Trefnodd y Cyngor ysgol ddiwrnod gwisgo lan i godi arain i Blant mewn Angen. Codwyd £85.
- Gwisgodd disgyblion mewn melyn ar gyfer Diwrnod Iechyd Meddwl Plant
- Trefnodd y cyngor ysgol i ddisgyblion wisgo coch, gwyn, gwyrdd neu felyn i gefnogi Cymru yn yr Euros a chodi tal o £1

- Cafodd yr arian a godwyd ei roi i Maint Cymru
- Bu disgyblion yn gwneud gweithgareddau Masnach Deg
- Bu disgyblion yn gwneud gweithgareddau ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl Plant – mynegwch eich hun- dwdlan i fynegi emosiwn, llenwi jar a theimlad hapus ayb
- Bu disgyblion yn gwneud gweithgareddau amrywiol ar Ddiwrnod Empathi
- Rhannwyd gweithgareddau ar  Empathi i wneud fel teulu ar Twitter i deuluoedd i wneud dros hanner tymoe

<u>Cyngor Eco</u>

- Dathlwydd Wythnos Masnach Deg drwy gynnal gweithgareddau gwahanol
- Cwbwlhawyd adolygiad Eco'r ysgol gan y disgyblion
- Mae'r ysgol yn noddi meithrinfa Little Stars yn Luhimba
- Bu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gweithio'n galed  yn plannu,creu yr abwydfa ayb
- Bu'r cyngor ysgol yn gweithio'n ddiwyd i gwrdd a statws Ysgolion Eco Platinum am y 5ed tro
- Codwyd £80 i Maint Cymru

<u>Cyngor Ysgol Iach / Lles</u>

- Cafwyd ymweliad gan PC Ali a bu'n cynnal gweithdai ar  gadw'n ddiogel, bwlio, cyffuriau, diogelwch ayb
- Dathlwyd Wythnos Masnach Deg drwy roi gweithgareddau i ddisgyblion
- Dathlwyd Diwrnod E Ddiogelwch drwy roi gweithgareddau i ddisgyblion gwbwlhau ar lein
- Cynhaliwyd weithdai i bob dosbarth gan SBECTRWM ar gadw'n ddiogel, cam drin domestig ayb
- Bu disgyblion yn dathlu Wythnos Iechyd Meddwl Plant drwy gwbwlhau gweithgareddau gwahanol ar y thema "Mynegwch eich

Hun" e.e. llanw jar a rhestr o bethau sy'n gwneud fi'n hapus, dwdl i gynrychiolu sut i fi'n teimlo ayb

- Bu disgyblion yn cwbwlhau gweithgareddau ar Diwrnod Empathi.
- Rhannwyd gweithgareddau ar Empath ar Twitter i ddisgyblion eu cwbwlhau
- Ynychodd y staff hyfforddiant ar "Creu Perthnasoedd Positif" ar Ionawr 4ydd
- Rhannwyd strategaethau unigol a dosbarth cyfan i wella ymddygiad
- Bu disgyblion yn cymryd rhan yn Sialens Llusern Sir Gar i ledaenu'r neges o olau, gobaith a chariad yn ein cymdeithas
- Bu disgyblion yn cymryd rhan yn un miliwn o funudau o ymarfer gan Actif Sir Gar
- Cafodd y staff hyfforddiant ar Garddio yn y Cwricwlwm
- Defnyddiwyd yr ardal allanol i gyflwyno a chwbwlhau tasgiau
- Mae disgyblion yn bwyta ffrwyth ar y cyd ac mewn modd meddwlgarwch
- Mae'r cyfnod Sylfaen yn mwynhau stori ar y cyd ar ddiwedd y dydd
- Pwysleisiwyd themau fel bod yn ffrind da, dangos parch, cyd weithio a chyd chwarae
- Rhannwyd holiadur gan ddisgyblion a rhieni ar Iechyd a Lles
- Cafodd ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gweithdy gan Oriel Myrddin ar fynegi teimladau drwy gelf

<u>Cwricwlwm Cymreig</u>

- Gwisgodd ddisgyblion y cyfnod sylfaen mewn gwisg traddodiadol ar Ddydd Gwyl Dewi
- Cafwyd cwis  a gweithgareddau Cymreig ar Ddydd Gwyl Dewi.
- Mwynhaodd ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gyngerdd gan Symffoni Cymru
- Bu disgyblion cyfnod allweddol 2  blwyddyn 5 a 6 -yn cymryd rhan yn Cwis Dim Clem a drefnwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli.
- Bu disgyblion y cyfnod sylfaen ar raglen rhithiol Cyw
- Cafodd disgyblion blynyddoedd 3 a 4 sesiynau rhithiol gan yr Amgueddfa Genedlaethol ar y Celtiaid

- Bu'r disgyblion yn canu'r anthem a'I recordio I gefnogi tim pel droed Cymru yn yr Euros
- Mwynhaodd flynyddoedd 5 a 6 cyngerdd gan Symffoni Cymru
- Bu disgyblion blwyddyn 5 a6 yn mwynhau sesiwn barddoni gan Bardd Plant Cymru Steffan Griffits i greu cerdd a fydd yn rhan o gerdd mawr gan ysgolion ar draws Cymru

Llwyddiannau
Bu'r cyngor Ysgolion Iach yn llwyddiannus i gwrdd a llinyn Diogelwch.
Bu'r cyngor Eco yn llwyddiannus i gynnal y wobr platinwm am y pumed tro

## Profiad Gwaith

Ni fu neb ar brofiad gwaith yn yr ysgol.

<u>Dyddiadau y Tymor</u>     Diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref – Medi'r ail.

## SCHOOL TERMS AND HOLIDAYS - ACADEMIC YEAR 2021/2022

| Term | Term Begins | Half Term Holiday Begins | Half Term Holiday Ends | Term Ends | Days |
|---|---|---|---|---|---|
| **Autumn 2021** | Thursday 2nd September | Monday 25th October | Friday 29th October | Tuesday 21st December | 74 |
| **Spring 2022** | Tuesday 4th January | Monday 21st February | Friday 25th February | Friday 8th April | 64 |
| **Summer 2022** | Monday 25th April | Monday 30th May | Friday 3rd June | Tuesday 19th July | 56 |
| Designated INSET Day - Wednesday, 1st September 2021 | | | | | 1 |
| **Total** | | | | | **195** |

N.B. Good Friday - 15th April 2022
May Day - 2nd May 2022

*Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.*

*Please note that this calendar is subject to any changes that may arise as a result of government policy decisions. Carmarthenshire County Council does not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.*

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth a chyd weithrediad i sicrhau fod disgyblion Ysgol Llannon yn dal i ddysgu dros y cyfnodau clo.

Diolch hefyd am eich cefnogaeth barhaus wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol i gadw disgyblion a staff Ysgol Llannon yn ddiogel.